

Hysbysiad Preifatrwydd – Aelodau Etholedig

Mae'r ddogfen hon yn esbonio pa wybodaeth bersonol rwy'n ei chasglu oddi wrthy ch chi er mwyn eich cynghori a'ch cynorthwyo chi ac er mwyn eirioli ar eich rhan. Mae hefyd yn esbonio sut y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio a'r dewisiadau sydd gennych chi o ran y ffordd y bydd yn cael ei defnyddio ar ôl ichi ei rhoi imi.

Mae defnyddio a datgelu gwybodaeth yn bethau sy'n cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth diogelu data. At ddibenion y ddeddfwriaeth honno, rwyf wedi fy nghofrestru â'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rheolwr data. Gan hynny, rhaid imi sicrhau fy mod yn trin pob darn o ddata personol yn unol â'r gyfraith.

Pam fy mod i'n trin data personol?

Fel aelod etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fy ngwaith i yw darparu cyngor a chymorth ar nifer o faterion i breswylwyr yn y ward etholedig rwy'n ei chynrychioli. Cewch ragor o wybodaeth am aelodau etholedig ar wefan y Cyngor: <https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr-a-chynrychiolwyr-etholedig/> Mae fy manylion cyswllt i hefyd i'w cael ar y wefan.

Er mwyn eich cynorthwyo chi, bydd yn rhaid imi gasglu a storio eich gwybodaeth bersonol yn ogystal â'r wybodaeth arall am sefyllfa benodol. Gallai peth o'r wybodaeth a rowch fod yn sensitif, (e.e. gallai ymwneud â'ch iechyd, eich arian, eich crefydd neu eich ethnigrwydd). Dim ond yr wybodaeth bersonol y mae ei hangen arnaf i gyflawni'r dasg rydych wedi gofyn imi eich cynorthwyo â hi y byddaf yn ei chasglu a'i chofnodi.

Pa fath/ddosbarth o ddata personol rwy'n ei drin?

Er mwyn eich cynorthwyo chi a chyflawni'r gwaith rwy'n ei ddisgrifio uchod, bydd angen imi gasglu peth gwybodaeth amdanoch chi. Bydd yr wybodaeth hon fel rheol yn cynnwys eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt, yn ogystal â manylion y pryder dan sylw.

Mae Deddf Diogelu Data yn trin rhai mathau o wybodaeth bersonol fel 'data categori arbennig' am fod angen gwarchod rhagor ar yr wybodaeth oherwydd ei bod yn sensitif. Mae'r wybodaeth hon yn sôn am:

- Fywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol
- Credoau crefyddol neu athronyddol
- Aelodaeth o undeb llafur
- Safbwyntiau gwleidyddol
- Data genetig a biometrig
- Iechyd corfforol neu feddyliol
- Tarddiad hiliol neu ethnig

Dim ond os yw'n berthnasol i'r cais rydych yn ei wneud y bydd yn rhaid imi gasglu'r math hwn o wybodaeth. Dim ond yr wybodaeth bersonol briodol y byddaf yn ei defnyddio i gyflawni diben neu ddibenion penodol. Gallai data personol fod yn

wybodaeth sy'n cael ei chadw ar gyfrifiadur neu ar bapur, ond gall hefyd gynnwys mathau o wybodaeth a gedwir yn electronig, e.e. delweddau teledu cylch cyfyng.

Wrth gynrychioli fy etholwyr, byddaf hefyd o bryd i'w gilydd yn prosesu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â:

- Phobl sy'n gweithio yn y Cyngor a/neu rywle arall yn y sector cyhoeddus, yn y trydydd sector neu mewn sefydliadau sector preifat
- Aelodau etholedig a phobl eraill mewn swyddi cyhoeddus
- Perthnasau, gwarcheidwaid a phobl sy'n adnabod yr etholwyr rwy'n eu cynrychioli
- Achwynwyr ac ymholwyr

O ble y daw'r data personol?

Daw'r holl wybodaeth rwy'n ei chadw amdanoch oddi wrthy ch chi pan ddowch ataf yn uniongyrchol i drafod eich problem neu bryder. Mae'n bosib y byddaf hefyd yn cael gwybodaeth oddi wrth sefydliadau neu unigolion yn ystod fy ymholiadau. Fodd bynnag, dim ond er mwyn ymchwilio rhagor i'ch problem neu'ch pryder y bydd yr wybodaeth honno'n cael ei defnyddio.

I bwy y bydd eich data personol yn cael eu datgelu?

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu â neb arall oni fydd y gyfraith yn gofyn am hynny neu'n caniatáu hynny, e.e. i atal troseddau, i ddiogelu pobl neu i ymchwilio rhagor i'ch cais ac ymateb iddo.

Dim ond er mwyn ymchwilio rhagor i'ch problem neu'ch cwyn y bydd yr wybodaeth bersonol a rowch, neu'r wybodaeth y gallwn ei chael oddi wrth drydydd parti yn ystod fy ymholiadau, yn cael ei defnyddio. Ni fydd eich data personol yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n mynd y tu hwnt i'ch disgwyliadau rhesymol chi.

Dyma esiamplau o rai trydydd partïon:

- Swyddogion y Cyngor
- Llywodraeth leol a/neu ganolog
- Landlordiaid
- Ymgynghorwyr gofal iechyd, cymdeithasol a lles
- Cynrychiolwyr etholedig a phobl eraill sy'n dal swyddi cyhoeddus
- Asiantaethau sy'n gorfodi cyfraith statudol a chyrrff ymchwilio

Rhaid i'r holl drydydd partïon rwy'n rhannu eich data â nhw gadw eich manylion yn ddiogel ac ni chânt ddefnyddio eich data ond at y diben a gyfathrebwyd i chi.

Os byddwch yn gofyn yn benodol imi beidio â rhannu gwybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych chi wrth drydydd partïon, byddaf yn ceisio parchu hynny. Fodd bynnag, dylech gofio efallai na fydd modd imi ymchwilio rhagor i'r mater ar eich rhan heb ichi ddatgelu pwy ydych chi.

Beth yw'r sylfaen gyfreithiol dros brosesu eich data personol?

Dyma'r sylfaeni cyfreithiol rwy'n glynu wrthynt wrth brosesu eich gwybodaeth personol pan fyddaf yn ymateb i'ch problem neu bryder:

- Eich caniatâd chi (neu ganiatâd unrhyw bobl berthnasol eraill, lle bo hynny'n briodol)
- Mae prosesu eich data yn angenrheidiol i'm buddiannau rhesymol i fel cynrychiolydd etholedig ac i fuddiannau fy etholwyr
- Rwy'n cyflawni swyddogaethau fel aelod etholedig er mwyn ymateb i geisiadau oddi wrth etholwyr lle caniateir hynny heb ganiatâd penodol dan un o'r amodau a nodir yn Atodlen 1 o Ddeddf Diogelu Data 2018

Beth am ddiogelwch eich data personol?

Fel rheolwr data, mae diogelwch yr holl ddata personol rwy'n eu cadw yn fater pwysig iawn imi. Byddaf yn sicrhau bod gennyf fesurau diogelwch rhesymol er mwyn sicrhau nad yw'r wybodaeth personol rwy'n ei rheoli yn cael ei cholli neu ei newid yn ddamweiniol, nad oes neb yn cael gafael arni mewn ffordd amhriodol ac nad oes neb yn ei chamddefnyddio neu ei dwyn. Byddaf yn sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu rheoli a'u gwella'n barhaus er mwyn sicrhau fy mod yn bodloni'r safonau diogelwch diweddaraf.

Beth yw eich hawliau chi o ran eich data personol?

Mae gennych chi'r hawliau hyn:

- Hawl mynediad – mae hawl gennych chi ofyn am gopi o'r wybodaeth rwy'n ei chadw amdanoch chi
- Hawl cywiro – mae hawl gennych gywiro data os credwch fod yr wybodaeth rwy'n ei chadw amdanoch chi yn anghyflawn neu'n anghywir
- Hawl anghofio – dan rai amgylchiadau, gallwch ofyn i'r data rwy'n eu cadw amdanoch chi gael eu dileu
- Hawl cyfyngu ar brosesu data – dan rai amodau, mae hawl gennych ofyn imi gyfyngu ar brosesau eich data
- Hawl gwrthwynebu – mae hawl gennych wrthwynebu rhai dulliau prosesu, e.e. marchnata uniongyrchol
- Hawl gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n awtomatig

Os ydych am arddel unrhyw rai o'ch hawliau, cysylltwch â mi yn y cyfeiriad a roddir ar wefan y Cyngor: <https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr-a-chynrychiolwyr-etholedig/>

A yw eich gwybodaeth bersonol yn cael ei hanfon y tu hwnt i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd?

Ni fydd data personol rwy'n eu rheoli yn cael eu hanfon y tu hwnt i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Am ba hyd y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw?

Bydd data personol a gedwir er mwyn ymateb i'ch cais, ac sydd wedi dod i law yn ystod fy ymholiadau, yn cael eu cadw tra bydd y gyfraith yn mynnu hynny. Fel arall, os nad yw'r gyfraith yn dynodi cyfnod penodol, cedwir y data am gyfnod addas wedi i'ch achos/ymholiad ddod i ben.

Cwynion

Os oes gennych chi bryderon am y ffordd rwyf wedi delio â'ch gwybodaeth bersonol, mae hawl gennych gwyno wrth Gomisiynydd Gwybodaeth Cymru os nad ydych yn fodlon â'm hymateb ar ôl ichi gysylltu â mi ynglŷn â phryder am ddiogelu ddata personol.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod goruchwylio yn y Deyrnas Unedig a sefydlwyd i sicrhau bod eich hawliau data yn cael eu hamddiffyn. Fi sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddata personol rydych yn eu rhoi imi yn cael eu prosesau a'u rheoli'n deg a chyfreithlon.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Ail lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH
Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399
E-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Gallwch hefyd gwyno wrth Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru am ymddygiad
Cynghorydd drwy fynd i wefan yr ombwdsmon a lawrlwytho ffurflen gwyno:
www.ombudsman-wales.org.uk